Fuoch Chi 'Rioed yn Morio?

Nofio, neidio,
Crwydro, morio...
Nofio, neidio,
Crwydro, morio...

Fuoch chi 'rioed yn morio?
Wel do, mewn padell ffrio;
Chwythodd y gwynt fi i'r Eil o Man
A dyna lle bûm i'n crïo.

Nofio, neidio,
Crwydro, morio...
Nofio, neidio,
Crwydro, morio...

Crïo'n arw, arw,
Dim byd ond tywydd garw;
Be' glywen i'n rhywle uwch fy mhen,
Ond gwylan wen yn galw.

Nofio, neidio,
Crwydro, morio...
Nofio, neidio,
Crwydro, morio...

Gwylan wen yn galw -
"Wel wir, mae'n biti garw;
Rhaid i ti aros hanner dydd
Yn llonydd am y llanw."

Nofio, neidio,
Crwydro, morio...
Nofio, neidio,
Crwydro, morio...

Llanw'n dwad wedyn
A'r gwynt yn troi yn sydyn:
Lansio'r badell ar y gro
A nofio'n ôl i Nefyn.

Nofio, neidio,
Crwydro, morio...
Nofio, neidio,
Crwydro, morio...

© 2020 S4C